CYNHYRCHU?

Ystyriwch Gymru.

Creative Business Wales
Busnes Creadigol Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Hydref '09

Croeso i rifyn hydref '09 e-fwletin Busnes Creadigol Cymru.

Os hoffech i unrhyw gydweithwyr gael eu hychwanegu at y rhestr ddosbarthu, neu os hoffech gael eich tynnu oddi arni, anfonwch neges e-bost at: cbw@wales-uk.com

* *

CYNNWYS

	Tud
Gŵyl Cyfryngau Celtaidd – Gwerth yr ŵyl i'r economi lleol	2
Dyddiadau i'ch dyddiadur	2
Y Bwrdd Strategaeth Technoleg yn dyrannu cronfa werth £2 miliwn ar gyfer ceisiadau i wneud astudiaethau dichonoldeb	3
Dyddiadau Teithiau Masnach Rhyngwladol	3
Cynlluniau Hyfforddi â chymorth MEDIA Antenna	4
Gwyliau / Fforymau / Digwyddiadau Rhwydweithio â chymorth MEDIA Antenna	4
Cronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru yn gwneud ei buddsoddiad cyntaf mewn trac sain ar gyfer ffilm newydd Matthew Rhys	5
Sioe Deithiol Televisual	5
Digwyddiadau'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig	5/6
Media + ...	6
Gweithdai Skillset Academi Sgrîn Cymru	6
Newyddion o'r diwydiant	7

Gŵyl Cyfryngau Celtaidd

GWERTH YR ŴYL I'R ECONOMI LLEOL

Yn dilyn yr uchafbwyntiau o'r Ŵyl Cyfryngau Celtaidd yn e-fwletin y gwanwyn, nod yr adroddiad hwn yw rhoi darlun o'r buddion economaidd a gafwyd o'r Ŵyl Cyfryngau Celtaidd a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yng nghanol mis Mawrth.

Mae'r Ŵyl Cyfryngau Celtaidd yn falch o hyrwyddo a dathlu ieithoedd a diwylliannau'r gwledydd a rhanbarthau Celtaidd ym meysydd ffilm, teledu, radio a chyfryngau digidol, ac yn datblygu a gwobrwyo ansawdd da a gwreiddioldeb trwy seremonïau gwobrwyo dyddiol.

Yn yr Ŵyl yng Nghaernarfon cafwyd yr un nifer fawr o geisiadau ag a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Y nifer derfynol oedd: 330 o geisiadau yng nghategori'r sgrin; 51 o geisiadau yng nghategori radio; 23 yng nghategori cyfryngau newydd - **cyfanswm o 404.**

Roedd 204 o'r ceisiadau yn Saesneg ac roedd 200 yn un o'r ieithoedd brodorol. Cyflwynwyd y 18 o wobrau mawr eu bri yn ystod seremonïau amser cinio dros y tri diwrnod.

Roedd Galeri, canolfan gelfyddydau ac ynddi gyfarpar da, yn cynnig yr holl le yr oedd ei angen i gynnal yr ŵyl gyfan o dan un to. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys theatr fawr, llyfrgell DVD, swyddfeydd i staff yr Ŵyl a chaffi/bar.

Denodd yr Ŵyl 411 o gynadleddwyr; roeddent yn gyfuniad o fyfyrwyr, cynrychiolwyr, panelwyr a staff yr Ŵyl. O'r data a ddarparwyd gan y swyddfa yn Glasgow gallwn dynnu'r casgliadau canlynol (i'r .05% agosaf)

- 186 o gynadleddwyr o Gymru, sef rhyw **45%** o'r bobl oedd yno
- 142 o gynadleddwyr o'r Alban, sef rhyw **36%** o'r bobl oedd yno
- 46 o gynadleddwyr o Iwerddon, sef rhyw **11%** o'r bobl oedd yno
- 8 cynadleddwr o Gernyw, sef rhyw **1.5%** o'r bobl oedd yno
- 12 cynadleddwr o Lydaw, sef rhyw **2%** o'r bobl oedd yno
- 16 o gynadleddwyr o Loegr, sef rhyw **4%** o'r bobl oedd yno
- 1 cynadleddwr heb nodi ei wlad, sef rhyw **0.5%** o'r bobl oedd yno

Er mwyn ceisio pennu gwerth i'r data hyn at ddibenion economaidd, defnyddiwyd ffigurau o Arolwg Twristiaeth y Deyrnas Unedig 2008 gan 'Visit Britain'.

- Arhosiad dros nos ar fusnes @ £117.00 y pen, y noson.
- £27.00 ymwelydd dydd, y pen, y diwrnod.

800 o arosiadau dros nos @ £117 y pen, y noson = £93,600.00
152 o ddiwrnodau i'r cynadleddwyr eraill @ £27.00 y noson = £ 4,104.00
Cyfanswm y budd a amcangyfrifir i'r economi lleol £97,704.00

Dywedodd Hugh Edwin Jones, un o drefnwyr yr Ŵyl, *"Yn ddi-os roedd hon yn Ŵyl y gallwn ni i gyd fod yn falch ohoni am lawer o resymau".*

Digwyddiadau Busnes Creadigol Cymru / Galw am geisiadau:

Dyddiadau i'ch dyddiadur:

Gŵyl Ffilm Soundtrack, Caerdydd

18fed – 22ain Tachwedd 09

Yr Ŵyl Ffilm a Cherddoriaeth Ryngwladol, sy'n canolbwyntio ar ymchwilio i'r berthynas greadigol hanfodol rhwng ffilm a cherddoriaeth.

Cliciwch ar y ddolen isod i roi'ch manylion ar y rhestr bostio i gael y diweddaraf am y datblygiadau ynglŷn â Soundtrack 09.
http://www.soundtrackfilmfestival.com/

Marchnad Ffilm America – Santa Monica
4YDD – 11EG Tachwedd 09.
Dros 8,000 o arweinwyr y diwydiant yn dod ynghyd yn Santa Monica am wyth diwrnod o daro bargeinion, sgrinio ffilmiau, seminarau, rhwydweithio ac ati. Mae'r bobl sy'n cymryd rhan yn dod o fwy na 70 o wledydd ac yn cynnwys swyddogion caffael a datblygu a mwy …
I gadw lle cliciwch ar y ddolen briodol ar:
http://www.ifta-online.org/afm/home.asp

Cynhadledd Cyfryngau Digidol Diwrnodau Animeiddio Abertawe
24AIN – 25AIN Tachwedd 09.

Mae'r Gynhadledd delweddu digidol ryngwladol flynyddol wedi'i llunio'n bennaf i'r diwydiannau eiddo deallusol creadigol ac unigolion sydd â diddordeb mewn ffilm animeiddiedig, effeithiau ôl-gynhyrchu, gemau a chelf a chyfryngau rhyngweithiol.

I gael mwy o wybodaeth cliciwch ar y ddolen briodol ar: www.smu.ac.uk

Bydd manylion ynglŷn â sut i

Y Bwrdd Strategaeth Technoleg yn dyrannu £2 miliwn ar gyfer astudiaethau dichonoldeb i gefnogi gweledigaeth y Llywodraeth o Brydain Ddigidol.

Er mwyn symbylu arloesi mewn modelau busnes, cymwysiadau, gwasanaethau a thechnolegau i gefnogi gweledigaeth y Llywodraeth o Brydain Ddigidol, mae'r Bwrdd Strategaeth Technoleg yn dyrannu hyd at £2 miliwn ar gyfer astudiaethau dichonoldeb.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i unigolion a sefydliadau diwydiannol o unrhyw faint sydd â diddordeb yn y pedwar maes blaenoriaethol canlynol:

Technolegau Galluogi ar gyfer y Rhyngrwyd
Technolegau caledwedd a/neu feddalwedd a allai ehangu swyddogaethau craidd y rhyngrwyd a chefnogi'r gwasanaethau sy'n rhedeg arno.

Cymwysiadau a gwasanaethau i Brydain Ddigidol
Cymwysiadau, gwasanaethau a modelau busnes newydd i gefnogi strategaeth Prydain Ddigidol

Y gallu i gael gwybodaeth gwasanaethau cyhoeddus
Cynigion sy'n rhoi gweledigaeth gymhellol o siâp gwasanaethau cyhoeddus digidol yn y dyfodol

Sefydlu a gweithredu seilwaith digidol mewn ffordd gost effeithiol
Dulliau a thechnolegau arloesol sy'n delio â heriau sefydlu a gweithredu

Dyddiadau cau

- **Cofrestru bwriad i gyflwyno cais, gan ymgeiswyr – 24ain Medi 2009.**
- **Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau llawn – 1af Hydref 2009 (canol dydd)**

Cliciwch yma i gael mwy o wybodaeth a'r dyddiadau allweddol:

gofrestru ar gael cyn bo hir ar y wefan hon.

Teithiau Masnachu: Busnes Rhyngwladol Cymru

Taith Fasnach i Malaysia (Aml-sector – Kuala Lumpur)

10fed – 17eg Hydref 09
I gael manylion ynglŷn â sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen: Teithiau Masnach IBW

Taith Fasnach i Saudi Arabia a Qatar (Aml-sector – Riyadh, Damman a Qatar)

8fed – 15fed Hydref 09
I gael manylion ynglŷn â sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen: Teithiau Masnach IBW

Taith Fasnach i Tsieina (Aml-sector – Shanghai)

1af– 7fed Tachwedd 09
I gael manylion ynglŷn â sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen: Teithiau Masnach IBW

Taith Fasnach i India (Aml-sector – Mumbai a Delhi)

28ain Tachwedd – 5ed Rhagfyr 09
I gael manylion ynglŷn â sut i gofrestru, cliciwch ar y ddolen: Teithiau Masnach IBW

Cynlluniau Hyfforddi â Chymorth MEDIA:

Mae'r dyddiadau cau ar gyfer y rhaglenni hyfforddi â chymorth canlynol yn nesáu:

5 Hydref Gweithdy Fabulafilm MAIA – Slofacia.

Rhaglen hyfforddi a dargedir at weithwyr proffesiynol sy'n dod i'r amlwg yn niwydiant clyweledol Ewrop; gan roi i'r rhai sy'n cymryd rhan y sgiliau sylfaenol y mae eu hangen i lywio prosiectau dogfen drwy'r holl gamau datblygu.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 25 Medi

EAVE – Gweithdy i Gynhyrchwyr o Ewrop 2010. Mawrth - Tachwedd 2010 – gwahanol leoliadau.

Rhaglen datblygu proffesiynol blwyddyn o hyd i gynhyrchwyr clyweledol o Ewrop, a ddarperir trwy dri gweithdy saith niwrnod yr un dan arweiniad cynhyrchwyr profiadol. Y lleoliadau yn 2010 fydd: Lwcsembwrg (Mawrth), Seville (Mehefin) a Belgrade (Hydref/Tachwedd).

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 1 Hydref

Ysgol Feistr Documentary Campus 2010 – gwahanol leoliadau.

Cwrs unigryw ar ddatblygu prosiectau i wneuthurwyr a chynhyrchwyr ffilmiau dogfen o Ewrop. Bydd y rhai fydd yn cymryd rhan yn cael dirnadaeth eglur ar ddatblygu, cynhyrchu a dosbarthu rhaglenni dogfen ar gyfer y farchnad ryngwladol. Bydd pob un fydd yn cymryd rhan yn cael ei gynorthwyo gan ddau diwtor yn ystod y cyfnod datblygu ac yn gwneud swydd hyfforddi gyda chwmni cynhyrchu neu ddosbarthu.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 2 Hydref

13 Chwefror 2010 Berlinale Talent Campus, Berlin

Cynhadledd greadigol chwe diwrnod o hyd i wneuthurwyr ffilmiau addawol o bob cwr o'r byd; yn cynnig amrywiaeth eang o elfennau yn ei rhaglen, yn ddarlithoedd, gweithdai, gwibdeithiau a hyfforddiant ymarferol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau 7 Hydref

MEDIA Antenna

Gwyliau / Fforymau / Digwyddiadau Rhwydweithio eraill â chymorth MEDIA yn y dyfodol agos:

22ain – 25ain Medi – *Fforwm Cartoon, Norwy.*

Fforwm cyd-gynhyrchu Ewropeaidd i gynhyrchwyr animeiddio y mae dros 260 o fuddsoddwyr posibl yn ei fynychu.

19eg – 24ain Hydref – *Lisbon Docs (EDN), Portiwgal*

Cyfle i geisio gwerthu prosiectau dogfen i arianwyr blaenllaw, cael adborth oddi wrth weithwyr proffesiynol sy'n adnabyddus yn rhyngwladol a ffurfio cynghreiriau newydd ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol.

21ain - 22ain Hydref – *Marchnad Cyllid Film London, y DU*

Yr unig ddigwyddiad o'i fath yn y DU; digwyddiad dau ddiwrnod sy'n canolbwyntio ar hwyluso cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng cynhyrchwyr ac arianwyr o'r farchnad ryngwladol.

4ydd – 8fed Tachwedd – *Sheffield Doc Fest/Meet Market, y DU*

Wedi'i chynllunio i baru syniadau mwyaf arloesol cynhyrchwyr annibynnol ar gyfer prosiectau gyda chomisiynwyr ac arianwyr Prydeinig a rhyngwladol.

4ydd – 16eg Tachwedd – *Gŵyl Ffilm Ryngwladol Leeds, y DU*

Un o'r gwyliau sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, sy'n cynnig amrywiaeth anferth o fathau ac arddulliau ym maes ffilm.

I gael mwy o wybodaeth a rhestr lawn o Ddigwyddiadau Rhwydweithio â chymorth MEDIA ewch i:
www.mediadeskuk.eu/networking

20 Hydref Dosbarth Meistr Cartoon: Ffilmiau hir – Sbaen.

Seminar hyfforddi o'r lefel uchaf wedi'i anelu at bobl broffesiynol o Ewrop sy'n gweithio ym maes animeiddio. Bydd cynnwys y rhaglen yn ymdrin â'r materion sy'n wynebu'r diwydiant ar hyn o bryd mewn ffordd ddamcaniaethol ac ymarferol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 9 Hydref

3-5 Rhagfyr Her Cynhyrchu Digidol – Y Swistir.

Gweithdy i gynhyrchwyr prif ffilmiau sydd â chyllideb fach neu ganolig, sy'n dadansoddi'r llif gwaith cynhyrchu digidol gorau ar gyfer eu prosiectau.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 15 Hydref

I gael mwy o wybodaeth a rhestr lawn o Raglenni Hyfforddi â Chymorth MEDIA, ewch i:
www.mediadeskuk.eu/training

Cronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru yn gwneud ei buddsoddiad cyntaf mewn trac sain ar gyfer ffilm newydd Matthew Rhys

Criw Patagonia ar leoliad yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

Mae Cronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru wedi cymryd ei chyfran gyntaf mewn trac sain ffilm ar ôl buddsoddi yn ffilm hir ddiweddaraf Matthew Rhys, Patagonia, sydd wedi cael arian ychwanegol oddi wrth Asiantaeth Ffilm Cymru. Cyfran ecwiti'r Gronfa yn y ffilm, sy'n werth £120,000, yw ei buddsoddiad cyntaf i gynnwys hawliau i'r refeniw a ddaw o drac sain cynhyrchiad. Matthew Rhys a Nia Roberts yw sêr Patagonia, cynhyrchiad dwyieithog sydd wedi'i osod yn y Wladfa ac yng Nghymru. Mae'r ffilm, a ysgrifennwyd gan Laurence Coriat a Marc Evans, yn cael ei chynhyrchu gan Rebekah Gilbertson a Flora Fernández-Marengo. Mae Matthew Rhys wedi gweithio gyda Gilbertson o'r blaen ar The Edge of Love.

TELEVISUAL roadshow
THE UK PRODUCTION TOUR

Dyddiad: Dydd Iau 22ain – Dydd Gwener 23ain Hydref 2009

Digwyddiad am ddim i'r tîm cynhyrchu i gyd, wedi'i gynllunio i hybu dealltwriaeth o'r wybodaeth ddiweddaraf am y busnes ac arferion cynhyrchu.

Bydd y seminarau'n cynnwys cyflwyniadau am gomisiynu, arian cyd-gynhyrchu, cyllidebau cynhyrchu, cyfleoedd yn yr ardal leol a throsolwg o'r ddamcaniaeth, fformatau, cynhyrchion a buddion diweddaraf o ran llif gwaith cynhyrchu.

Cynhelir gan: Mwnci
Lleoliad: Stadiwm criced SWALEC yng Ngerddi Sophia.

Mae'r digwyddiadau am ddim ond mae'n rhaid i chi gofrestru. Mae cofrestru'n agor ar **30ain Medi ar** www.televisual.com/roadshow.

Y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig

WOMEX 2009 (Copenhagen):

Womex yw'r ffair fasnach gerddoriaeth ar gyfer cerddoriaeth y byd, cerddoriaeth werin a cherddoriaeth ieithoedd lleiafrifol.

28ain Hydref – 1 Tachwedd 09

Mae WMF yn gofyn am ddatganiadau o ddiddordeb mewn mynd i'r ffair cyn gynted ag sy'n bosibl. Anfonwch neges e-bost at: kieron@welshmusicfoundation.com

Ffilmiwyd ym Mhatagonia ac ar leoliadau ledled Cymru. Gwariwyd o leiaf £322,000 o'r costau cynhyrchu yng Nghymru. *"Mae Patagonia yn unigryw i'r Gronfa oherwydd dyma'r cynhyrchiad cyntaf lle'r ydym wedi buddsoddi nid yn unig yn y ffilm ei hun ond hefyd yn y trac sain cysylltiedig",* meddai Bethan Bannister o'r Gronfa. Darparodd Comisiwn Sgrîn Cymru gymorth logistaidd a chymorth cysylltu. Cynorthwyodd pedair swyddfa ranbarthol y Comisiwn drwy chwilio am leoliadau, cynnal ymweliadau archwilio, cysylltu â pherchnogion lleoliadau a swyddogion cyswllt cynghorau, a chynnig cyngor ar lawer o ofynion y cynhyrchiad, megis llety a chyfleusterau.

Mae Pauline Burt, Prif Weithredwr Asiantaeth Ffilm Cymru, wedi dweud: *"Roedd cymhelliad arbennig i'r Asiantaeth Ffilm gynorthwyo â'r prosiect hwn, a'i bâr deniadol o ddoniau allweddol, trwy gyfnod ei ddatblygu ac ymlaen i gyfnod ei gynhyrchu."* Gan groesawu'r buddsoddiad a'r arian oddi wrth sefydliadau yng Nghymru, dywedodd y cynhyrchydd, Rebekah Gilbertson: *"Mae cynhyrchydd yn ymlafnio am fisoedd i ganfod a datblygu syniad…... Wedyn rydych chi'n dechrau chwilio am leoliadau a chastio. Ar ôl hyn mae'r eiliad tyngedfennol yn dod pan rydych chi'n rhoi cyflwyniad i godi arian fel y gellir gwneud eich ffilm……Yna, wrth i chi feddwl efallai y bydd yn rhaid i chi roi'r ffidil yn y to, daw buddsoddwyr fel Cronfa Eiddo Deallusol Creadigol Cymru a sefydliadau fel Asiantaeth Ffilm Cymru, sy'n gweld beth rydych chi'n ceisio'i wneud ac yn rhoi i chi'r help llaw sy'n gwneud byd o wahaniaeth. All Marc Evans, finnau, ein cast a'r holl dîm cynhyrchu ddim diolch digon iddyn nhw am wireddu ein breuddwyd."*

Yn ei nodyn diolch i Gomisiwn Sgrîn Cymru, dywedodd y rheolwr lleoliad *"Mae'r cast a'r criw wedi cael amser gwych yn ffilmio a doedden nhw ddim eisiau iddo ddod i ben… Pe bai ein holl bobl gyswllt yr un mor barod eu cymwynas, byddai ein bywydau'n haws o lawer."* **I ddarllen mwy …….**

http://www.financewales.co.uk/news_and_media/press_releases/280709_patagonia.aspx

ACADEMI SGRIN CYMRU **SKILLSET** SCREEN ACADEMY WALES

Academi +

Mae Academi+ yn brosiect newydd nodedig sy'n gywaith rhwng 6 sefydliad addysg uwch sy'n gweithio ym meysydd ffilm, teledu, animeiddio, gemau, radio, newyddiaduraeth a'r cyfryngau rhyngweithiol yng Nghymru, a Skillset Cymru. Mae'r rhaglen newydd a chyffrous hon o gymorth hyfforddiant i'r sector yn cael ei datblygu a'i chynnal gan bartneriaid Academi Sgrin Skillset* a'r Academi Gyfryngol* newydd yng Nghymru ac fe gafodd ei hariannu gan Fenter Cefnogaeth Economaidd CCAUC.

Bydd y rhaglen hyfforddiant newydd, **Academi+**, yn cynnig cynlluniau Datblygiad Proffesiynol Parhaus sydd ar flaen y gad i gwmnïau cynhyrchu ac i rydd-gyfranwyr, hyfforddiant i newydd-ddyfodiaid a chyngor ac arweiniad gyrfaol sy'n benodol i'r diwydiant.

Caiff mwy o wybodaeth am y rhaglen gyrsiau ei chyhoeddi yn hwyr ym mis Medi. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â Hannah Raybould.

os oes gennych ddiddordeb.

SESIWN GALW HEIBIO'R SEFYDLIAD CERDDORIAETH GYMREIG -

PORTH

Dydd Mawrth 29ain Medi 2009

Lleoliad: Porth Plaza, Heol Pontypridd, Porth, Y Rhondda

Amser: 4.00pm – 6.00pm

Mae'r Sesiynau Galw Heibio am ddim ac mae'r apwyntiadau'n para tua 30 munud.

I ddarllen mwy …. Sesiynau Galw Heibio WMF

I drefnu'ch apwyntiad, anfonwch neges e-bost at hello@welshmusicfoundation.com neu ffoniwch 02920 494110.

ACADEMI SGRIN CYMRU SKILLSET SCREEN ACADEMY WALES

Gweithdai undydd i **rydd-gyfranwyr** a nifer gyfyngedig o leoedd i **raddedigion** a thiwtoriaid ar Photoshop / Pro Tools / E-farchnata / Dreamweaver / Datblygu CV / Blogio / Podledu a mwy…
Mae cost pob cwrs rhwng £15 a £35 am y diwrnod
I holi pa ddyddiadau sydd ar gael neu i gadw lle mewn gweithdai yn 2009 cliciwch ar y ddolen berthnasol ar y wefan, neu ffoniwch Greg ar 02920 480344 neu anfonwch neges e-bost.

Newyddion o'r diwydiant

- Astudiaethau dichonoldeb ar gyfer Prydain Ddigidol – cronfa £2 miliwn y Bwrdd Strategaeth Technoleg.
- Undebau llafur yn ymuno ag ymgyrch y DU yn erbyn lladrata eiddo dan hawlfraint
- Chweched adroddiad blynyddol Ofcom ar y Farchnad Gyfathrebu.
- BBC Blast a BAFTA Bursary
- Bygwth torri'r cysylltiad rhyngrwyd i bobl sy'n lawrlwytho'n anghyfreithlon.
- The Pirate Party UK a thir newydd ar gyfer rhannu ffeiliau.
- Datganiad y llywodraeth ar y ddeddfwriaeth arfaethedig ar rannu ffeiliau P2P.
- Bygwth torri'r cysylltiad rhyngrwyd i bobl sy'n lawrlwytho'n anghyfreithlon.
- Y diwydiant gemau'n pwyso ar lywodraeth y DU am ostyngiad ar dreth.
- Mae ar bobl ifanc 'angen mwy o wybodaeth am y diwydiannau creadigol'.
- Y dirwasgiad heb effeithio ar wario ar deledu a chyfathrebu: Ofcom.

CBW cysylltwch â:
Busnes Creadigol Cymru, 33-35 West Bute Street, Bae Caerdydd, CF10 5LH
Ffôn: 02920 43 6110
Ffacs: 02920 49 5598
E-bost: cbw@wales-uk.com
Gwefannau:
www.ibwales.com
www.business-support-wales.gov.uk

© Busnes Creadigol Cymru 2009